MATHEMATEG – SESIWN 5: BYLCHAU RHWNG GWLEDYDD

Ystod oedran: 11–16 oed

<table>
<tr><td colspan="2">Amlinelliad
Bydd y dysgwyr yn trin a thrafod rhai dangosyddion datblygiad mewn mwy o fanylder, cyn mynd ati i ofyn ac i ateb cwestiynau am gyfres o ddata mewn tabl ar gyfer y Deyrnas Unedig a phedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc: Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam. Bydd y dysgwyr yn ystyried gwahanol ffyrdd o gyflwyno data, cyn mynd ati i drosi canrannau'n ffracsiynau, a'r gwrthwyneb, i gyflwyno dangosyddion datblygiad. I orffen, byddant yn trafod rhesymau dros ddisgrifio data mewn gwahanol ffyrdd, ac yn llunio eu datganiadau eu hunain am y data datblygiad.</td></tr>
<tr><td>Amcanion dysgu
Dehongli data datblygiad.
Gallu trosi canrannau'n ffracsiynau a ffracsiynau'n ganrannau.
Disgrifio data mewn gwahanol ffyrdd.
Llunio datganiadau am set o ddata.</td><td>Deilliannau dysgu
Bydd y dysgwyr yn dehongli data datblygiad a gyflwynir mewn tabl ar gyfer y Deyrnas Unedig a phedair gwlad y prosiect Bywydau Ifanc.
Bydd y dysgwyr yn gofyn ac yn ateb cwestiynau am y set ddata hon.
Bydd y dysgwyr yn trosi canrannau'n ffracsiynau a ffracsiynau'n ganrannau.
Bydd y dysgwyr yn llunio datganiadau am ddata datblygiad.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol
Beth y mae'r data datblygiad hyn yn ei ddweud wrthym ni?
Pa gwestiynau y gallem ni eu gofyn am y data hyn? Beth fyddai'r atebion?
Beth fyddai'r ganran hon ar ffurf ffracsiwn?
Pa gyfrifiad a ddefnyddiwyd i greu'r datganiad hwn?
Pam y gallai pobl fod am ddisgrifio data mewn gwahanol ffyrdd?</td><td>Adnoddau
Mathemateg – Sioe sleidiau B (sleidiau 13–20)
Taflenni adnoddau:
Mesur datblygiad (Tablau 1, 2 a 3)
Dangosyddion mesur datblygiad
Ffracsiynau a chanrannau (Tabl wedi'i lenwi)
Mewn geiriau eraill (Datganiadau cyflawn)
Taflenni gweithgareddau:
Ffracsiynau a chanrannau (Tablau 1 a 2)
Mewn geiriau eraill</td></tr>
</table>

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgareddau ac adnoddau arfaethedig i'ch cynorthwyo â'ch addysgu, yn hytrach na'i lywio, yw'r rhain. Gall fod angen i chi wneud mwy o waith addysgu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr o ran rhai o'r cysyniadau hyn.

Gweithgaredd 5.1 *(20 munud)*

Cwestiynu data

Noder: Mae rhan gyntaf y gweithgaredd hwn yr un fath â gweithgaredd 2.4 *yn y pecyn* Daearyddiaeth*.*

- Gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi rhai o'r gwahanol ffyrdd o fesur 'datblygiad'. Ceir rhai enghreifftiau ar sleidiau 14 a 15.
- Trefnwch y dysgwyr mewn parau a rhowch gopi o *Mesur datblygiad – Tabl 1, 2* neu *3* i bob pâr, gan ddibynnu ar allu'r dysgwyr. Ceir copi o *Mesur datblygiad – Tabl 1* ar sleid 16, ynghyd â disgrifiad o bob dangosydd yn *Dangosyddion mesur datblygiad.* Eglurwch fod y tabl yn dangos cyfanswm y boblogaeth a data detholiad o ddangosyddion datblygiad ar gyfer pob un o'r pedair gwlad sy'n rhan o'r prosiect Bywydau Ifanc (Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam) a'r Deyrnas Unedig. Dywedwch mai Banc y Byd sydd wedi cyfrifo'r data, a'i fod yn sefydliad sy'n rhoi benthyg arian i wledydd i gefnogi twf a datblygiad economaidd, er enghraifft, prosiectau seilwaith mawr neu raglenni addysg.
- Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y tabl *Mesur datblygiad.* Gofynnwch gwestiynau am y data, fel:
  - *Beth yw'r disgwyliad oes ym Mheriw?*
  - *Pa ganran o'r boblogaeth sy'n gallu cael mynediad at drydan yn Ethiopia?*
  - *Beth yw'r gwahaniaeth rhwng nifer y bobl sy'n defnyddio'r Rhyngrwyd fesul 100 o bobl yn y Deyrnas Unedig a'r nifer sy'n gwneud hynny yn India?*
  - *Ym mha wlad y mae'r gyfradd marwolaethau babanod isaf?*
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i lunio eu cwestiynau eu hunain am y data. Rhowch gyfle i'r dysgwyr rannu eu cwestiynau a cheisio ateb cwestiynau'r dysgwyr eraill.
- Atgoffwch y dysgwyr fod ymchwilwyr y prosiect Bywydau Ifanc hefyd wedi casglu data am rai o'r dangosyddion datblygiad hyn mewn detholiad o gymunedau yn Ethiopia, India, Periw a Fiet-nam. Dangoswch sleidiau 17 i 20 sy'n cynnwys dyfyniadau gan bedwar person ifanc am eu mynediad at addysg, dŵr, cyfleusterau glanweithdra, a thrydan. Trafodwch ymatebion y dysgwyr i'r wybodaeth hon. Tynnwch sylw at y ffaith mai cyfartaleddau yw'r dangosyddion datblygiad hyn ac nad ydynt yn darlunio unrhyw anghydraddoldebau o fewn gwledydd. Pwysleisiwch mai dyfyniadau gan ddim ond pedwar person ifanc yw'r rhain. Er y bydd llawer o bobl ifanc ym mhob un o'r gwledydd hyn yn wynebu heriau tebyg, bydd eraill yn gallu cael yr un mynediad at addysg, dŵr yfed, cyfleusterau glanweithdra diogel a thrydan â phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Rhowch gopïau o* Mesur datblygiad – Tabl 1 *(data wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf) i'r dysgwyr.*
- *Gwneud pethau'n anos: Rhowch gopïau o* Mesur datblygiad – Tabl 2 *neu* 3 *(data wedi'u talgrynnu i un neu ddau le degol) i'r dysgwyr.*

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gweithgaredd 5.2 *(25 munud)*

Ffracsiynau a chanrannau

- Trefnwch y dysgwyr mewn parau a rhowch gopi o *Mesur datblygiad – Tabl 1* i bob pâr. Ceir copi o'r tabl hwn ar sleid 16. Bydd y dysgwyr wedi cael eu cyflwyno i'r tabl hwn yng *Ngweithgaredd 5.1.* Ceir disgrifiad o bob dangosydd yn *Dangosyddion mesur datblygiad.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r holl ddangosyddion datblygiad a ddisgrifir fel canrannau o'r boblogaeth gyfan:
    - Mynediad at ffynhonnell ddŵr well
    - Mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell
    - Mynediad at drydan
    - Byw mewn ardal wledig (poblogaeth wledig)
    - Byw mewn ardal drefol (poblogaeth drefol)
    - Byw mewn tlodi eithafol
- Gofynnwch i'r dysgwyr am ffordd arall o ddisgrifio'r canrannau hyn. *Beth fyddai'r ganran hon ar ffurf ffracsiwn?*
- Rhowch gopi o *Ffracsiynau a chanrannau – Tabl 1* neu *2* i'r dysgwyr (gweler isod i gael manylion gwahaniaethu). Eglurwch fod y tabl hwn yn cynnwys data o'r tabl *Mesur datblygiad.* Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r tabl drwy roi'r gwerthoedd sydd ar goll. Eglurwch y bydd angen iddynt drosi canrannau'n ffracsiynau a ffracsiynau'n ganrannau.
- Ceir fersiwn gyflawn o'r tabl yn *Ffracsiynau a chanrannau – Tabl wedi'i lenwi.*

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n haws: Defnyddiwch* Ffracsiynau a chanrannau – Tabl 1 *ac ewch ati i drosi pob canran yn ffracsiwn.*
- *Gwneud pethau'n anos: Defnyddiwch* Ffracsiynau a chanrannau – Tabl 2 *a rhowch y gwerthoedd coll ar gyfer y canrannau a'r ffracsiynau.*

Gweithgaredd 5.3 *(30 munud)*

Cyfrifo canrannau

Noder: Bydd angen i'r dysgwyr ddefnyddio cyfrifiannell i wneud y gweithgaredd hwn.

- Rhannwch gopïau o *Mesur datblygiad – Tabl 1.* Ceir copi o'r tabl hwn ar sleid 16 hefyd.
- Cytunwch pa rai o'r dangosyddion datblygiad sy'n cael eu disgrifio fel canran o'r boblogaeth gyfan. Dylai'r dysgwyr gofio hyn o *Weithgaredd 5.2.*
- Gofynnwch i'r dysgwyr: *Pa ganran o boblogaeth gyfan Periw sy'n byw mewn tlodi eithafol?* Cytunwch mai 5% yw'r ateb. Nawr, gofynnwch i'r dysgwyr: *Gan ddefnyddio'r data hyn, faint o bobl ym Mheriw sy'n byw mewn tlodi eithafol?*
- Dewiswch ddysgwyr i rannu eu cyfrifiadau. Cytunwch mai 5% o 30 miliwn (cyfanswm poblogaeth Periw) yw 1.5 miliwn.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r tabl a chyfrifiannell i ofyn cwestiynau tebyg ac i gyfrifo eu hatebion. Dyma rai cwestiynau posibl:
  - *Faint o bobl yn Ethiopia nad oes ganddyn nhw fynediad at drydan?*
  - *Faint o bobl yn India nad oes ganddyn nhw fynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell?*
  - *Faint o bobl ym Mheriw nad oes ganddyn nhw fynediad at ffynhonnell dŵr yfed well?*
  - *Faint o bobl yn Fiet-nam sy'n byw mewn ardaloedd gwledig?*
  - *Faint o bobl yn y Deyrnas Unedig sy'n byw mewn ardaloedd trefol?*

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r data yn* Mesur Datblygiad – Tablau 1, 2 *a* 3 *i gyfrifo'r atebion i'w cwestiynau. Yna, gofynnwch iddynt gyfrifo'r gwahaniaethau rhwng y tri chyfanswm i ddangos arwyddocâd talgrynnu'r data.*

Gweithgaredd 5.4 (45 munud)

Mewn geiriau eraill

- Tynnwch sylw at y ffaith fod modd disgrifio'r data yn *Mesur datblygiad – Tabl 1* mewn gwahanol ffyrdd.
- Trefnwch y dysgwyr mewn parau a rhowch gopi o *Mesur datblygiad – Tabl 1* ac *Mewn geiriau eraill* i bob pâr. Eglurwch fod y deg datganiad a geir yn *Mewn geiriau eraill* wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r data a geir yn *Mesur datblygiad – Tabl 1.* Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r data hyn i lenwi'r rhan honno o bob datganiad sydd ar goll. Mae'r atebion cywir ar gael yn *Mewn geiriau eraill – Datganiadau cyflawn.*
- Rhowch gyfle i'r dysgwyr rannu a thrafod eu hatebion, gan ddefnyddio'r cwestiynau a ganlyn i sbarduno'r drafodaeth:
  - *A gawsoch chi eich synnu gan unrhyw rai o'r datganiadau? Os felly, pa ddatganiadau a pham?*
  - *Os caiff data eu disgrifio mewn ffordd wahanol, ydych chi'n meddwl bod hynny'n gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae pobl yn ymateb i'r data? Eglurwch eich ateb.*
  - *Pam y gallai pobl fod am ddisgrifio data mewn ffyrdd gwahanol?*
  - *Pa ddatganiadau eraill y gallech chi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r data a geir yn* Mesur datblygiad – Tabl 1*?*
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r data a geir yn *Mesur Datblygiad – Tabl 1* i greu eu set eu hunain o ddatganiadau.
- Ar ddiwedd y gweithgaredd, rhowch gyfle i'r dysgwyr drafod unrhyw bethau y maent wedi sylwi eu bod yn debyg ac yn wahanol ymhlith y gwledydd o ran y gwahanol ddangosyddion datblygiad. Gallech ofyn y cwestiynau a ganlyn:
  - *O edrych ar ddata datblygiad y gwledydd hyn, beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol?*
  - *Pa ddangosyddion datblygiad sy'n amrywio fwyaf ymhlith y gwledydd hyn?*
  - *Beth yw'r rhesymau dros rai o'r anghydraddoldebau hyn yn eich tyb chi?*

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Gwahaniaethu

- *Gwneud pethau'n anos: Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio* Mesur Datblygiad – Tabl 2 *neu* 3 *(data wedi'u talgrynnu i un neu ddau le degol) i greu eu set eu hunain o ddatganiadau.*

Syniadau pellach

- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i'r modd y caiff data eu defnyddio a'u trin ar y cyfryngau ac ym maes hysbysebu. Gallent gasglu penawdau, erthyglau neu hysbysebion sy'n cyfeirio at ddata. Yna, gallent ymchwilio i ffynhonnell y data y cyfeirir atynt yn y testun, ac ystyried a yw'n cyflwyno'r data mewn ffordd ddiduedd ai peidio. Byddai modd defnyddio'r gweithgaredd hwn i sbarduno trafodaeth sy'n ystyried pam y gallai data gael eu cyflwyno mewn ffordd benodol, er enghraifft, i syfrdanu a chyffroi, neu i hyrwyddo cynnyrch penodol neu ymgyrch benodol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio gwahanol ffyrdd o gyflwyno'r wybodaeth yn weledol gan ddefnyddio codlysiau sych, gleiniau neu nodiadau gludiog.
- Gofynnwch i'r dysgwyr archwilio'r defnydd o ffeithluniau i gyflwyno canrannau a data datblygiad. Gweler adnodd Oxfam, *Mae Pawb yn Cyfrif, Uned 3, Sesiwn 1:* www.oxfam.org.uk/education/resources/everyone-counts
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r Rhyngrwyd i ymchwilio i ddangosyddion llesiant a datblygiad eraill. Dyma rai gwefannau defnyddiol:
  - Data Agored Banc y Byd: http://data.worldbank.org/
  - Data'r Cenhedloedd Unedig: data.un.org
- Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio i ffyrdd eraill o gyflwyno'r data hyn, er enghraifft, defnyddio siartiau cylch neu siartiau bar.

Telerau defnydd

Hawlfraint © Oxfam GB/Bywydau Ifanc

Gallwch ddefnyddio'r lluniau a'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam a Bywydau Ifanc. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.

Mesur datblygiad

Tabl 1

Dangosydd	Ethiopia	India	Periw	Fiet-nam	Y Deyrnas Unedig
Poblogaeth (miliynau)	97	1,295	31	91	65
Disgwyliad oes adeg genedigaeth (blynyddoedd)	64	66	75	76	81
Cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y pen (UDA$ cyfredol)	565	1,596	6,551	2,052	45,603
Cyfradd marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	41	38	13	17	4
Mynediad at ffynhonnell ddŵr well (% o'r boblogaeth gyfan)	57	94	87	98	100
Mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell (% o'r boblogaeth gyfan)	28	40	76	78	99
Mynediad at drydan (% o'r boblogaeth gyfan)	27	79	91	99	100
Nifer y tanysgrifiadau ffonau symudol (fesul 100 o bobl)	32	74	103	147	124
Defnyddwyr y Rhyngrwyd (fesul 100 o bobl)	3	18	40	48	92
Poblogaeth wledig (% o'r boblogaeth gyfan)	81	68	22	67	18
Poblogaeth drefol (% o'r boblogaeth gyfan)	19	32	78	33	82
Cofrestriadau mewn ysgolion cynradd (% o'r grŵp oedran perthnasol)	65	93	92	98	100
Byw mewn tlodi eithafol (% o'r boblogaeth gyfan)	34	21	4	3	Dim data

Mae'r data wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Casglwyd y data rhwng 2006 a 2015.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mesur datblygiad

Tabl 2

Dangosydd	**Ethiopia**	**India**	**Periw**	**Fiet-nam**	**Y Deyrnas Unedig**
Poblogaeth (miliynau)	97.0	1,295.3	31.0	90.7	64.5
Disgwyliad oes adeg genedigaeth (blynyddoedd)	63.6	66.5	74.8	75.8	81.0
Cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y pen (UDA$ cyfredol)	565.2	1,595.7	6,550.9	2,052.3	45,603.3
Cyfradd marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	41.4	37.9	13.1	17.3	3.5
Mynediad at ffynhonnell ddŵr well (% o'r boblogaeth gyfan)	57.3	94.1	86.7	97.6	100.0
Mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell (% o'r boblogaeth gyfan)	28.0	39.6	76.2	78.0	99.2
Mynediad at drydan (% o'r boblogaeth gyfan)	26.6	78.7	91.2	99.0	100.0
Nifer y tanysgrifiadau ffonau symudol (fesul 100 o bobl)	31.6	74.5	102.9	147.1	123.6
Defnyddwyr y Rhyngrwyd (fesul 100 o bobl)	2.9	18.0	40.2	48.3	91.6
Poblogaeth wledig (% o'r boblogaeth gyfan)	81.0	67.6	21.7	67.0	17.7
Poblogaeth drefol (% o'r boblogaeth gyfan)	19.0	32.4	78.3	33.0	82.3
Cofrestriadau mewn ysgolion cynradd (% o'r grŵp oedran perthnasol)	65.3	93.1	91.8	98.0	99.9
Byw mewn tlodi eithafol (% o'r boblogaeth gyfan)	33.5	21.3	3.7	3.2	Dim data

Data wedi'u talgrynnu i un lle degol.

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Casglwyd y data rhwng 2006 a 2013.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mesur datblygiad

Tabl 3

Dangosydd	Ethiopia	India	Periw	Fiet-nam	Y Deyrnas Unedig
Poblogaeth (miliynau)	96.96	1,295.29	30.97	90.73	64.51
Disgwyliad oes adeg genedigaeth (blynyddoedd)	63.62	66.46	74.81	75.76	80.96
Cynnyrch crynswth mewnwladol (CMC) y pen (UDA$ cyfredol)	565.16	1,595.70	6,550.92	2,052.29	45,603.29
Cyfradd marwolaethau babanod (fesul 1,000 o enedigaethau byw)	41.40	37.90	13.10	17.30	3.50
Mynediad at ffynhonnell ddŵr well (% o'r boblogaeth gyfan)	57.30	94.10	86.70	97.60	100.00
Mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell (% o'r boblogaeth gyfan)	28.00	39.60	76.20	78.00	99.20
Mynediad at drydan (% o'r boblogaeth gyfan)	26.56	78.70	91.20	99.00	100.00
Nifer y tanysgrifiadau ffonau symudol (fesul 100 o bobl)	31.59	74.48	102.92	147.11	123.58
Defnyddwyr y Rhyngrwyd (fesul 100 o bobl)	2.90	18.00	40.20	48.31	91.61
Poblogaeth wledig (% o'r boblogaeth gyfan)	80.97	67.63	21.72	67.05	17.66
Poblogaeth drefol (% o'r boblogaeth gyfan)	19.03	32.37	78.29	32.95	82.35
Cofrestriadau mewn ysgolion cynradd (% o'r grŵp oedran perthnasol)	65.32	93.09	91.84	97.97	99.91
Byw mewn tlodi eithafol (% o'r boblogaeth gyfan)	33.54	21.25	3.70	3.23	Dim data

Data wedi'u talgrynnu i ddau le degol.

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/

Casglwyd y data rhwng 2006 a 2013.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dangosyddion mesur datblygiad

- **Disgwyliad oes**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos nifer gyfartalog y blynyddoedd y bydd disgwyl i faban newydd-anedig mewn gwlad fyw os bydd y patrymau marwolaethau ar adeg ei enedigaeth yn parhau i fod yr un fath yn y dyfodol.

- **Incwm cyfartalog y person (CMC y pen)**

Mae'r dangosydd hwn yn fesur o incwm blynyddol cyfartalog pob person mewn gwlad. Yn aml, caiff ei fesur yn noleri'r Unol Daleithiau (UDA$).

- **Cyfradd marwolaethau babanod**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos nifer y babanod newydd-anedig fesul 1,000 o enedigaethau byw mewn gwlad sy'n marw cyn eu pen-blwydd cyntaf.

- **Mynediad at ffynhonnell ddŵr well**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y ganran o boblogaeth gwlad sy'n gallu cael mynediad at ffynhonnell ddŵr well. Ffynonellau dŵr gwell yw'r rheiny sy'n cael eu diogelu mewn rhyw ffordd rhag halogiad allanol, fel dŵr sy'n cael ei gludo i dai drwy bibellau, tapiau cyhoeddus a thyllau turio.

- **Mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y ganran o boblogaeth gwlad sy'n gallu cael mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell. Mae cyfleusterau glanweithdra gwell yn cynnwys toiledau sy'n fflysio, toiledau pydew a thoiledau compostio.

- **Mynediad at drydan**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y ganran o boblogaeth gwlad sy'n gallu cael mynediad at drydan.

- **Nifer y tanysgrifiadau ffonau symudol**

Nifer y tanysgrifiadau ffonau symudol fesul 100 o bobl yw'r dangosydd hwn. Bydd gan rai pobl fwy nag un tanysgrifiad ffôn symudol, fel pobl sy'n tanysgrifio i gael ffôn symudol ar gyfer eu busnes neu rieni sy'n tanysgrifio i gael ffonau symudol i'w plant.

- **Defnyddwyr y Rhyngrwyd**

Nifer y bobl sy'n defnyddio'r Rhyngrwyd fesul 100 o bobl yw'r dangosydd hwn. Mae'n mesur defnydd o'r Rhyngrwyd ymhlith ystod oedran benodol, sef pobl rhwng 16 a 74 oed yn aml.

- **Poblogaeth wledig**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y ganran o boblogaeth gwlad sy'n byw mewn ardal wledig. Fel arfer, defnyddir y term 'gwledig' i ddisgrifio ardaloedd â phoblogaeth deneuach. Ceir gwahanol fathau o ardaloedd gwledig, gan ddibynnu ar ba mor hawdd yw hi i gyrraedd yr ardaloedd gwledig o ardaloedd trefol. Mae rhai ardaloedd gwledig yn agos at ymyl ardal drefol. Mae eraill mewn cefn gwlad anghysbell.

- **Poblogaeth drefol**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos y ganran o boblogaeth gwlad sy'n byw mewn ardal drefol. Fel arfer, defnyddir y term 'trefol' i ddisgrifio ardaloedd mwy poblog, fel trefi a dinasoedd.

- **Cofrestriadau mewn ysgolion cynradd**

Mae'r dangosydd hwn yn dangos canran y plant o oed cynradd swyddogol sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol gynradd.

- **Byw mewn tlodi eithafol**

Dyma'r ganran o boblogaeth gwlad sy'n byw mewn tlodi eithafol. Fel arfer, caiff tlodi eithafol ei ddiffinio fel byw ar lai nag UDA$1.90 y diwrnod ar gyfer eich holl anghenion.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Ffracsiynau a chanrannau

Tabl 1

Dangosydd	Ethiopia		India		Periw		Fiet-nam		Y Deyrnas Unedig	
	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn
Cyfran y boblogaeth â mynediad at ffynhonnell ddŵr well	57		94		87		98		100	
Cyfran y boblogaeth â mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell	28		40		76		78		99	
Cyfran y boblogaeth â mynediad at drydan	27		79		91		99		100	
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd gwledig	81		68		22		67		18	
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd trefol	19		32		78		33		82	
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn tlodi eithafol	34		21		4		3		Dim data	Dim data

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/ Casglwyd y data rhwng 2006 a 2013.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Ffracsiynau a chanrannau

Tabl 2

Dangosydd	Ethiopia		India		Periw		Fiet-nam		Y Deyrnas Unedig	
	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn
Cyfran y boblogaeth â mynediad at ffynhonnell ddŵr well	57			$\frac{47}{50}$		$\frac{87}{100}$		$\frac{49}{50}$		1
Cyfran y boblogaeth â mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell		$\frac{7}{25}$	40		76			$\frac{39}{50}$	99	
Cyfran y boblogaeth â mynediad at drydan	27		79		91		99		100	
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd gwledig		$\frac{81}{100}$		$\frac{17}{25}$		$\frac{11}{50}$	67		18	
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd trefol	19			$\frac{8}{25}$		$\frac{39}{50}$	33			$\frac{41}{50}$
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn tlodi eithafol		$\frac{17}{50}$	21		4			$\frac{3}{100}$	Dim data	Dim data

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/ Casglwyd y data rhwng 2006 a 2013.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Ffracsiynau a chanrannau

Tabl wedi'i lenwi

Dangosydd	Ethiopia		India		Periw		Fiet-nam		Y Deyrnas Unedig	
	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn	Canran	Ffracsiwn
Cyfran y boblogaeth â mynediad at ffynhonnell ddŵr well	57	$\frac{57}{100}$	94	$\frac{47}{50}$	87	$\frac{87}{100}$	98	$\frac{49}{50}$	100	1
Cyfran y boblogaeth â mynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell	28	$\frac{7}{25}$	40	$\frac{2}{5}$	76	$\frac{19}{25}$	78	$\frac{39}{50}$	99	$\frac{99}{100}$
Cyfran y boblogaeth â mynediad at drydan	27	$\frac{27}{100}$	79	$\frac{79}{100}$	91	$\frac{91}{100}$	99	$\frac{99}{100}$	100	1
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd gwledig	81	$\frac{81}{100}$	68	$\frac{17}{25}$	22	$\frac{11}{50}$	67	$\frac{67}{100}$	18	$\frac{9}{50}$
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn ardaloedd trefol	19	$\frac{19}{100}$	32	$\frac{8}{25}$	78	$\frac{39}{50}$	33	$\frac{33}{100}$	82	$\frac{41}{50}$
Cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn tlodi eithafol	34	$\frac{17}{50}$	21	$\frac{21}{100}$	4	$\frac{1}{25}$	3	$\frac{3}{100}$	Dim data	Dim data

Ffynhonnell ddata: *Data Agored Banc y Byd:* http://data.worldbank.org/ Casglwyd y data rhwng 2006 a 2013.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mewn geiriau eraill

Defnyddiwch y data a geir yn *Mesur datblygiad – Tabl 1* i lenwi'r rhan honno sydd ar goll ym mhob datganiad isod.

1) Mae poblogaeth India tua _____ gwaith cymaint â phoblogaeth y Deyrnas Unedig.

2) Ar hyn o bryd, mae disgwyl i blentyn sy'n cael ei eni ym Mheriw heddiw fyw _____ mlynedd yn hirach na phlentyn sy'n cael ei eni yn Ethiopia heddiw.

3) Mae gan _____ ran o bump o boblogaeth India fynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell.

4) Mae _____% o blant Ethiopia (i'r rhif cyfan agosaf) yn marw cyn eu pen-blwydd cyntaf.

5) Nid oes gan _____% o boblogaeth Ethiopia fynediad at drydan.

6) I'r miliwn agosaf, nid oes gan _____ miliwn o bobl yn Ethiopia fynediad at ffynhonnell ddŵr well.

7) Yn fras, mae cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y pen y Deyrnas Unedig _____ gwaith cymaint â CMC y pen Fiet-nam.

8) Mae _____ gwaith cymaint o ddefnyddwyr y Rhyngrwyd fesul 100 o bobl yn Fiet-nam o'i gymharu â nifer y defnyddwyr fesul 100 o bobl yn Ethiopia.

9) Yn fras, mae _____ o bob pum person yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn ardal wledig.

10) Mae tua _____ miliwn o bobl yn India yn byw mewn tlodi eithafol.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Mewn geiriau eraill

Datganiadau wedi'u cwblhau

Defnyddiwch y data a geir yn *Mesur datblygiad – Tabl 1* i lenwi'r rhan honno sydd ar goll ym mhob datganiad isod.

1) Mae poblogaeth India tua ___*20*___ gwaith cymaint â phoblogaeth y Deyrnas Unedig.

2) Ar hyn o bryd, mae disgwyl i blentyn sy'n cael ei eni ym Mheriw heddiw fyw ___*11*___ mlynedd yn hirach na phlentyn sy'n cael ei eni yn Ethiopia heddiw.

3) Mae gan ___*ddwy*__ ran o bump o boblogaeth India fynediad at gyfleusterau glanweithdra gwell.

4) Mae ___*4*____% o blant Ethiopia (i'r rhif cyfan agosaf) yn marw cyn eu pen-blwydd cyntaf.

5) Nid oes gan ____*73*____% o boblogaeth Ethiopia fynediad at drydan.

6) I'r miliwn agosaf, nid oes gan ____*42*____ miliwn o bobl yn Ethiopia fynediad at ffynhonnell ddŵr well.

7) Yn fras, mae cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y pen y Deyrnas Unedig ____*22*____ gwaith cymaint â CMC y pen Fiet-nam.

8) Mae ____*16*____ gwaith cymaint o ddefnyddwyr y Rhyngrwyd fesul 100 o bobl yn Fiet-nam o'i gymharu â nifer y defnyddwyr fesul 100 o bobl yn Ethiopia.

9) Yn fras, mae ___*un*____ o bob pum person yn y Deyrnas Unedig yn byw mewn ardal wledig.

10) Mae tua ___*272*____ miliwn o bobl yn India yn byw mewn tlodi eithafol.

Hawlfraint © Oxfam GB Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.